

Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

Adrannau 1 ac 8

Teitl y cynnig:	Rhaglen brechu rhag farisela
Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):	Mandy Stone / Sharron Richards Tîm polisi brechu
Adran:	Is-adran frechu
Pennaeth yr Is-adran/Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):	Tania Nicholson
Yr Ysgrifennydd Cabinet/y Gweinidog Cyfrifol:	Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Dyddiad Dechrau:	Hydref/gaeaf 2025

CYNNWYS

No table of contents entries found.

Adran 1. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

Ar ffurf naratif, disgrifiwch y mater a'r camau gweithredu a gynigir gan Lywodraeth Cymru.

Mae farisela (a elwir yn gyffredin yn frech yr ieir) – yn glefyd hynod heintus sy'n cael ei achosi gan y feirws varicella-zoster. Mae farisela yn gyffredin iawn ac mae'n effeithio ar y rhan fwyaf o blant yn ystod plentyndod, ond gall rhywun o unrhyw oedran ei ddal am y tro cyntaf. Mae farisela yn aml yn fwy difrifol mewn babanod ifanc iawn (o dan 4 wythnos) ac oedolion, yn enwedig mewn beichiogrwydd pan all achosi cymhlethdodau yn y fam a'r ffetws, ac mewn oedolion sy'n imiwnoataliedig.

Mae'r rhan fwyaf o achosion o farisela ymhlith plant yn gymharol ysgafn ac mae'r salwch yn gwella heb unrhyw angen am driniaeth gan weithiwr meddygol proffesiynol, er bod y rhan fwyaf o blant yn anhwylyd am sawl diwrnod a byddant yn colli pum niwrnod neu ragor o'r ysgol neu'r feithrinfa. Er hynny, bydd cymhlethdodau yn sgil farisela yn datblygu ymhlith rhai plant gan gynnwys heintiau bacterol o ganlyniad i friwiau croen, (gan gynnwys streptococws grŵp A) ac, mewn achosion prin, cyflyrau fel enseffalitis, niwmonitis a strôc. O bryd i'w gilydd, gall y cymhlethdodau hyn achosi i blant orfod cael eu derbyn i'r ysbyty ac, ar adegau prin, gallant arwain at farwolaeth.

Mae'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) wedi argymhell y dylid cyflwyno rhaglen gyffredinol i frechu rhag farisela (brech yr ieir) fel rhan o'r amserlen imiwneiddio arferol i blant. Dylai'r rhaglen frechu hon fod yn rhaglen dau ddos sy'n cynnig brechiad yn 12 mis ac yn 18 mis oed gan ddefnyddio'r brechlyn MMRV cyfunol (y frech goch, clwy'r pennau, rwbela a farisela): [Datganiad JCVI ar raglen brechu rhag farisela plentyndod \(brech yr ieir\) mewn plentyndod- GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

Fel y dangoswyd mewn gwledydd eraill sy'n cynnwys farisela yn eu hamserlen frechu arferol, rhagwelir y bydd amserlen 2 ddos yn lleihau nifer yr achosion o farisela a welir yn ystod plentyndod yn gyflym ac yn ddramatig. Bydd y rhaglen yn atal achosion difrifol o farisela, a chymhlethdodau difrifol eraill yn sgil farisela. Er bod y cymhlethdodau hyn yn brin, fe allent fod wedi arwain at dderbyniadau i'r ysbyty neu ganlyniadau difrifol eraill.

Yn ddarostyngedig i gytundeb y Gweinidogion, mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â gwledydd eraill y DU, yn cynnig cyflwyno rhaglen frechu arferol rhag farisela o fis Rhagfyr 2025 ymlaen.

Sut rydych wedi cymhwyso / sut y byddwch yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'r camau arfaethedig, drwy gydol y polisi a'r cylch cyflawni?

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â phedwar o'r nodau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) sef:

- Cymru fwy llewyrchus - mae poblogaeth sydd â lefel brechu uchel yn iachach, sydd yn ei dro yn arwain at gyflogaeth uwch a mwy o gynhyrchiant.
- Cymru iachach - drwy gyfrannu at lesiant corfforol a meddyliol pobl.
- Cymru sy'n fwy cyfartal – lle mae plant iachach yn mynd ymlaen i gyrraedd eu potensial waeth beth fo'u cefndir/amgylchiadau.
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang - lle mae brechu yn allweddol i ddiogelwch iechedd byd-eang, mewn byd cydgysylltiedig lle gall achosion o glefyd ledaenu'n gyflym iawn. Gall gwlad sydd â lefelau brechu uchel ymateb yn well i frigiadau o achosion ac argyfyngau iechedd cyhoeddus.

O ran y pum ffordd o weithio, mae'r polisi hwn yn ystyried:

- **Tymor hir** - Effaith fwyaf arwyddocaol brechlynnau yw atal morbidrwydd a marwolaethau o heintiau difrifol sy'n effeithio'n anghymesur ar blant. Mae plant sydd wedi'u diogelu'n well yn golygu oedolion iachach. Mae rhaglenni brechu yn darparu rhywfaint o symudedd cymdeithasol, gan nad yw tlodi a'r afiechydon a'r marwolaethau cysylltiedig o glefydau heintus bellach yn penderfynu cyfleoedd bywyd rhywun. Mae gan bobl sydd wedi'u brechu y potensial ar gyfer gwell disgwyliad oes - dangosir hyn yn bennaf gan fabanod a phlant, ond mae pobl o oedrannau eraill yn elwa hefyd¹.
- **Atal** - Yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd, amcangyfrifir bod brechlynnau yn atal bron tair miliwn o farwolaethau y flwyddyn. Brechu yw un o'r camau pwysicaf y gallwn eu cymryd ar gyfer ein hiechedd ein hunain, ac iechedd ein plant, ac mae'n un o'r camau ataliol pwysicaf y gall GIG Cymru ei gynnig i bobl yng Nghymru.
- **Integreiddio** – Bydd y rhaglen frechu hon yn integreiddio ac yn cyd-fynd â newidiadau sydd wedi'u cynllunio i'r amserlen brechu plant. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio'n agos â Rhaglen Frechu Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn lleihau unrhyw darfu ar ddarpariaeth y GIG. Mae rheolwr prosiect VPW wedi'i benodi i werthuso opsiynau i gynllunio ar gyfer cyflwyno'r rhaglen yn effeithlon ac yn effeithiol.
- **Cydweithredu** – Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio â'r Rhaglen Frechu ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth gynllunio'r gwaith o weithredu'r rhaglen frechu drwy ohebiaeth a chyfarfodydd ar-lein rheolaidd.
- **Cyfranogiad** – Gofynnwyd i randdeiliaid perthnasol am eu barn er mwyn llywio'r asesiad effaith integredig hwn a byddant yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf wrth i'r polisi ddatblygu. Yn ddarostyngedig i gytundeb y

¹ Andre et al. (2008). Mae brechu yn lleihau clefyd, anabledd, marwolaeth ac annhegwch ledled y byd yn fawr. Bull. Sefydliad Iechyd y Byd 86, 140–146.

Gweinidogion, bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â chydweithwyr clinigol a gweithredol er mwyn llywio penderfyniadau ar sut y byddai rhaglen farisela yn cael ei chyflwyno o fis Rhagfyr 2025.

Effaith

Cadarnhaol –

- Diben sefydlu'r rhaglen frechu hon rhag farisela (fel pob brechiad) yw fel mesur ataliol i ddarparu amddiffyniad rhag clefyd.
- Bydd y brechlyn farisela yn atal brigiad o achosion mewn lleoliadau gofal plant ac ysgolion, gan arwain at lai o achosion o'r clefyd, llai o amser ysgol a gollir gan blant a llai o siawns y bydd pobl na allant gael eu brechu yn dod i gysylltiad â'r clefyd.
- Byddai'r rhaglen frechu yn cyfyngu ar y gyfradd heintio hefyd ac yn lleihau nifer yr achosion difrifol yn y gymuned. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd y rhai sydd wedi'u brechu a bydd yn lleihau effaith farisela ar wasanaethau iechyd cyhoeddus.
- Byddai brechiad yn cael ei gynnig i bob plentyn cymwys ni waeth beth fo'i gefndir. Y byrddau iechyd sy'n cyflawni'r model o frechu fel mater o drefn yn ystod plentyndod a hynny drwy ofal sylfaenol. Mae brechiadau a weinyddir gan feddygon teulu yn tueddu i fod yn fwy hygyrch, o ran lleoliad.

Negyddol

- Mae gan y rhaglen frechu yn ystod plentyndod nifer uchel o frechiadau a gynnigir i blentyn cyn iddo gyrraedd oedran ysgol. Gallai ychwanegu brechiad arall at yr amserlen hon olygu bod pobl yn blino ar frechlynnau, gan arwain o bosibl at ostyngiad yn y nifer sy'n cael brechlynnau eraill yn yr amserlen neu ostyngiad yng nghyfraddau brechu ar gyfer MMR (y frech goch, clwy'r pennau a rwbela).
- Mae'n gyffredin profi rhai sgil-ffeithiau ysgafn i gymedrol wrth gael brechiadau. Y rheswm dros hyn yw bod y system imiwnedd yn cyfarwyddo'r corff i ymateb mewn ffyrdd penodol. Mae tystiolaeth bod defnyddio'r brechlyn MMRV cyfunol fel dos cyntaf wedi bod yn gysylltiedig â chyfradd ychydig yn uwch o ffitiau gwres o'i gymharu â defnyddio brechlynnau MMR a farisela ar wahân yn yr un ymweliad. Mae ffitiau gwres yn gonfyslynnau mewn plant a achosir gan dymheredd uchel y corff.

Costau ac arbedion

- Gwnaeth Is-adran Gwyddoniaeth, Tystiolaeth a Chyngor (SEA) Llywodraeth Cymru baratoi papur i amcangyfrif costeffeithiolrwydd rhaglen brechu rhag

farisela i Gymru. Mae'r papur yn dod i'r casgliad bod nifer o astudiaethau yn awgrymu y byddai brechu rhag farisela yn cynhyrchu arbedion cost o safbwynt cymdeithasol, drwy atal colli cynhyrchiant, absenoldeb, a gofal anffurfiol. Ystyriodd JCVI dystiolaeth a ddangosodd y byddai rhaglen frechu fel mater o drefn yn ystod plentyndod yn gosteffeithiol ac y gallai arbed costau yn dibynnu ar bris y brechlyn.

- Mae JCVI wedi argymhell cychwyn rhaglen dal i fyny ar ôl gweithredu rhaglen gyffredinol i fabanod 12 mis a 18 mis oed, i atal bwlch mewn imiwnedd. Nid yw'r Pwyllgor wedi cyhoeddi manylion yr argymhelliad hwn eto. Pan fydd eglurder ar gael ar y rhaglen dal i fyny, bydd yr Asesiad Effaith Integredig (IIA) hwn yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu cost y rhaglen dal i fyny a argymhellir.
- Bydd amcangyfrif llawn o'r gost ar gyfer y rhaglen (gan gynnwys yr elfen dal i fyny) ar gael maes o law.

Mecanwaith

- Nid oes angen deddfwriaeth newydd i gyflwyno'r rhaglen frechu hon yng Nghymru.
- Caiff unrhyw benderfyniad i fwrw ymlaen â rhaglen frechu/rhaglen dal i fyny rhag farisela ei gyfleu ar yr adeg briodol i'r GIG drwy Gylchlythyr Iechyd Cymru a bydd datganiad ysgrifenedig yn cael ei gyhoeddi i hysbysu Aelodau o'r Senedd.
- Cyhoeddwyd y [Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol](#) ym mis Hydref 2022 ac mae'n nodi ein cynlluniau i roi gwybod i bobl pa frechlynnau y maent yn gymwys i'w cael a sut i'w cael.
- GIG Cymru fydd yn gyfrifol am gyflwyno'r rhaglen, gyda byrddau iechyd yng Nghymru yn datblygu cynlluniau lleol ac yn asesu effaith y cynlluniau hyn.
- Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn datblygu strategaeth gyfathrebu i roi gwybod i rieni/gofalwyr am sut y mae'r rhaglen yn cyd-fynd â'r amserlen brechu yn ystod plentyndod ac am fanteision imiwneiddio plant.

Adran 8. Casgliad

Sut y mae pobl y mae'r cynnig fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Mae'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) wedi argymhell rhaglen brechu rhag farisela (brech yr ieir) yn cael ei rhoi mewn amserlen dau ddos i fabanod 12 mis a 18 mis oed, yng nghyd-destun y newidiadau arfaethedig i'r amserlen imiwneiddio arferol yn ystod plentyndod, ac ar gyfer rhaglen dal i fyny i blant hŷn. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei gynghori i dderbyn yr argymhelliad hwn ac i raglen gael ei rhoi ar waith yng Nghymru.

Fel rhan o'i ystyriaethau edrychodd JCVI ar dystiolaeth ynghylch derbyn rhaglen farisela gan rieni. Cyflwynodd astudiaeth gan Sherman et al [Parental acceptance of and preferences for administration of routine varicella vaccination in the UK: a study to inform policy](#) adroddiad ynghylch i ba raddau mae rhieni yn derbyn cyflwyno brechiad farisela i'r DU a dewisiadau ar gyfer hynny .

Roedd y rhan fwyaf o rieni (74.0%) yn debygol o dderbyn brechlyn farisela i'w plentyn, roedd 18.3% yn annhebygol o'i dderbyn ac nid oedd 7.7% yn debygol nac yn annhebygol. Ymhlith y rhesymau a ddarparwyd gan rieni sy'n debygol o dderbyn y brechlyn roedd amddiffyniad rhag cymhlethdodau brech yr ieir, ymddiriedaeth yn y brechlyn/gweithwyr gofal iechyd, ac awydd i'w plentyn osgoi eu profiad personol o frech yr ieir. Ymhlith y rhesymau a ddarparwyd gan rieni a oedd yn annhebygol o dderbyn y brechlyn roedd honiad nad yw brech yr ieir yn salwch difrifol, pryder am sgil-ffeithiau, a'r gred ei bod yn well dal brech yr ieir fel plentyn yn hytrach nag fel oedolyn. Roedd brechiad MMRV cyfunol neu ymweliad ychwanegol â'r feddygfa yn cael ei ffafrio yn hytrach na chwistrelliad ychwanegol yn yr un ymweliad.

Disgrifiwch sut yr ydych wedi cynnwys y canlynol:

- *Plant a'u cynrychiolwyr; Pobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010; a phobl eraill y gallai'r cynnig effeithio arnynt.*

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru rôl wrth ymgysylltu â'r cyhoedd a sefydliadau statudol a thrydydd sector amrywiol i gael darlun ymddygiadol o'r rhwystrau, canfyddiadau a phrofiadau mewn perthynas â rhaglenni brechu yng Nghymru. Mae'r sefydliad yn defnyddio gwahanol offerynnau a dulliau i ymgysylltu'n uniongyrchol â grwpiau i lywio strategaethau cenedlaethol a gwelliannau i wasanaethau a dylanwadu arnynt. Y nod yw mynd ati i gynnwys gwahanol garfannau o'r cyhoedd, fel grwpiau ethnig lleiafrifol² wrth ddatblygu adnoddau ac ymyriadau, gyda'r nod o lywio a meithrin ymddiriedaeth. Fel rhan o [Werthusiad Adroddiad Astudio o adnoddau gwybodaeth](#) published in 2023) defnyddiodd Iechyd Cyhoeddus Cymru grwpiau ffocws a chyfweiliadau manwl gyda defnyddwyr gwasanaethau, i archwilio agweddau

² <https://icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau/gwybodaeth-ymgysylltu/gwerthusiad-o-adnoddau-gwybodaeth-adroddiad-cryno-lleiafrifoedd-ethnig-2023-pdf/>

tuag at frechiadau, yn ogystal ag ymwybyddiaeth a barn am wybodaeth am frechiadau. Yn ogystal, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymrun [arolwg o Agweddau rhieni](#) yn 2021, gyda'r nod o lywio'r rhaglen frechu cyn ysgol, sicrhau bod cyfathrebu Iechyd Cyhoeddus Cymru â rhieni yn diwallu eu hanghenion a datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r hyder mewn brechlynnau yng Nghymru. Mae rhai o'r canfyddiadau'n cynnwys:

- Mae rhieni sy'n cael eu dosbarthu fel 6 C2DE³ (9%) a rhieni anabl (19%) yn fwy tebygol o fod ag amheuan ynghylch diogelwch brechlynnau.
- Mae siaradwyr Cymraeg yn llai tebygol na grwpiau eraill o fod wedi gweld neu glywed gwybodaeth am frechu yn ystod y 12 mis diwethaf (77%).
- Mae grwpiau oedran iau (16-24), rhieni plant o dan 18 oed, y rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol a phobl sy'n nodi eu bod yn drawsryweddol yn fwy tebygol o fod wedi dod ar draws gwybodaeth am frechiadau sy'n peri pryder.
- Mae pobl o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn fwy tebygol o raddio nifer o glefydau y mae rhaglen frechu Cymru yn amddiffyn rhagddynt fel rhai nad ydynt yn ddifrifol, felly hefyd pobl LHDTTC+.

Mae gwaith pellach yn cael ei gynllunio gan gyfathrebiadau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar strategaeth sy'n amlinellu i rieni a gofalcwyr plant ifanc fanteision cael y brechiad farisela, gan gynnwys gwybodaeth/taflenni wedi'u teilwra ar gyfer grwpiau penodol, yn seiliedig ar ganlyniadau'r astudiaethau a grybwyllir uchod.

Bydd timau cyfathrebu'r byrddau Iechyd yn bwrw ymlaen â'r negeseuon hyn ar lefel leol i gyrraedd eu trigolion.

8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Effeithiau

Mae tîm Cyngor ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth (SEA) Llywodraeth Cymru wedi cael data o dablau data PEDW Blynyddol oddi wrth Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar dderbyniadau a chyfnodau ymgynghorydd gorffenedig oherwydd farisela gyda chymhlethdodau a heb gymhlethdodau megis llid yr ymennydd, enseffalitis, niwmonia, a chymhlethdodau eraill. O'r data diweddaraf sydd ar gael (cyn y pandemig) roedd 265 o dderbyniadau ar gyfartaledd oherwydd farisela heb gymhlethdodau. Yn ogystal, roedd 47 o dderbyniadau i'w priodoli yn benodol i farisela gyda chymhlethdodau.

Ymhellach, amcangyfrifodd tîm SEA faich economaidd farisela yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar golledion cynhyrchiant rhai sy'n rhoi gofal, ac fe gyfrifodd fod rhyw

³ mae'r rhai sy'n ddi-waith a'r rhai sy'n cael eu haddysgu i lefel is na gradd yn llai tebygol na'r cyfartaledd o ystyried y clefydau hyn yn ddifrifol.

130,000 o ddiwrnodau yn cael eu colli, gan arwain at golli cynhyrchiant o £16 miliwn y flwyddyn.

Bydd rhoi rhaglen brechu rhag farisela ar waith yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd plant yng Nghymru. Bydd y rhaglen nid yn unig yn cynnig amddiffyniad personol, uniongyrchol unigol rhag clefyd, ond mae manteision ar lefel poblogaeth, o ran imiwnedd (cymunedol), a welir ym mhrofiad gwledydd eraill megis UDA ac Awstralia, sydd wedi gweld nifer yr achosion o'r clefyd a'r canlyniadau difrifol sy'n gysylltiedig ag ef yn gostwng yn fawr.

Mae dadansoddiad cost-efeithiolrwydd a gynhaliwyd yn dangos y bydd adnoddau a fuddsoddwyd mewn rhaglenni imiweiddio, fel y rhaglen farisela, yn dychwelyd mwy o ran enillion trwy leihau'r pwysau ar y GIG, gan leihau'r angen i geisio ymyriadau meddygol o ran apwyntiadau meddygon teulu a derbyniadau i'r ysbyty.

Mae tystiolaeth bod brechu plentyndod yn un o'r ymyriadau a all chwarae rhan bwysig o ran sicrhau chwarae teg i grwpiau difreintiedig. Mae rhaglenni brechu yn darparu rhywfaint o symudedd cymdeithasol, gan nad yw tlodi a'r salwch a'r marwolaethau cysylltiedig sy'n deillio o glefydau heintus bellach yn benderfynyddion cyfleoedd bywyd unigolyn. Mae astudiaethau'n dangos bod iechyd gwell gan blant sydd wedi'u brechu a'u bod yn perfformio'n well yn yr ysgol. Mae gan bobl sydd wedi'u brechu y potensial ar gyfer gwell disgwyliad oes - dangosir hyn yn bennaf gan fabanod a phlant, ond mae pobl o oeddrannau eraill yn elwa hefyd (Andre et al., 2008). Gallai ymyriadau iechyd megis brechiadau arferol leihau baich clefydau heintus yn ystod plentyndod cynnar a thrwy hynny helpu i dorri'r cylch ar draws cenedlaethau o dlodi, iechyd gwael, ac incwm isel.

8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- **yn cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau, neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Rhoddwyd ystyriaeth ddyladwy i'r ffordd y mae'r polisi'n ymwneud â'r nodau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r pum ffordd o weithio. Mae poblogaeth sydd â lefelau brechu uchel yn iachach, yn gorfforol ac yn feddyliol, sy'n cyfrannu at nod Cymru iachach, ac mae pobl iachach yn golygu gweithlu mwy cynhyrchol a chynhyrchiant uwch sydd wrth reswm yn arwain at Gymru fwy ffyniannus. Mae plant iachach yn mynd ymlaen i gyrraedd eu potensial waeth beth fo'u cefndir/amgylchiadau a fydd yn golygu Cymru fwy cyfartal. Mae brechu yn allweddol i ddiogelwch iechyd byd-eang, mewn byd cydgysylltiedig lle gall brigiad o achosion o glefyd ledaenu'n gyflym iawn. Gall gwlad sydd â lefelau brechu uchel ymateb yn well i frigiadau o achosion ac argyfyngau iechyd cyhoeddus, sy'n arwain at Gymru sy'n fwy cyfrifol ar lefel byd-eang.

O ran y pum ffordd o weithio, mae'r polisi hwn yn ystyried:

Mae rhaglenni brechu yn yr **hirdymor** yn darparu rhywfaint o symudedd cymdeithasol, gan nad yw tlodi a'r salwch a'r marwolaethau cysylltiedig o ganlyniad i glefydau heintus bellach yn benderfynyddion cyfleoedd bywyd rhywun. Mae gan bobl sydd wedi'u brechu y potensial ar gyfer gwell disgwyliad oes - dangosir hyn yn bennaf gan fabanod a phlant, ond mae pobl o oedrannau eraill yn elwa hefyd. Brechu yw un o'r camau pwysicaf y gallwn eu cymryd ar gyfer ein hiechyd ein hunain, a dyma'r cam **ataliol** pwysicaf y gall GIG Cymru ei gynnig i bobl yng Nghymru. Bydd y rhaglen frechu hon yn **integreiddio** ac yn cyd-fynd â newidiadau sydd wedi'u cynllunio i'r amserlen brechu plant. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio'n agos â Rhaglen Frechu Cymru ac lechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn lleihau unrhyw darfu ar ddarpariaeth y GIG. Mae Llywodraeth Cymru wedi **cydweithio** â'r Rhaglen Frechu ac lechyd Cyhoeddus Cymru a bydd yn parhau i wneud hynny wrth gynllunio'r gwaith o weithredu'r rhaglen frechu a monitro ei llwyddiant, drwy ymgysylltu'n rheolaidd. Cafodd rhanddeiliaid perthnasol eu **cynnwys** yn y broses o lywio'r asesiad effaith integredig hwn a byddant yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf wrth i'r polisi ddatblygu. Yn ddarostyngedig i gytundeb y Gweinidogion, bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â chydweithwyr clinigol a gweithredol er mwyn llywio penderfyniadau ar sut y byddai rhaglen farisela yn cael ei chyflwyno o fis Rhagfyr 2025.

Er mwyn gwneud y gorau o'r manteision a ddisgrifir, rhaid i frechu fod yn hygyrch i bawb.

Er mwyn sicrhau bod cynifer â phosibl o bobl o grwpiau anodd eu cyrraedd yn cael y brechlyn farisela, bydd GIG Cymru yn gweithredu egwyddorion y Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2022⁴, sy'n ceisio trawsnewid a gwella'r ddarpariaeth o raglenni brechu ac imiwneiddio ar gyfer pobl Cymru, gyda phwyslais ar gael mwy o bobl i fanteisio ar frechlynnau a sicrhau bod tegwch wrth wraidd y rhaglen.

Wrth gyflwyno'r rhaglen frechu hon, bydd disgwyl i fyrddau iechyd gynnig cefnogaeth wedi'i theilwra i alluogi ac annog grwpiau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol i fanteisio ar y cynnig o'r brechiad. Er mwyn gwneud hyn, rhaid cymryd camau rhagweithiol i sicrhau:

- Bod pawb sy'n gymwys i gael brechiad yn cael cynnig apwyntiad priodol (ac yn cael eu galw'n ôl pan fo angen) a'u bod yn gallu cael brechiad.
- Bod pawb yn cael yr wybodaeth y mae arnynt ei hangen i wneud penderfyniad gwybodus am frechu ar sail ffynonellau dibynadwy.

⁴ <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-10/fframwaith-imiwneiddio-cenedlaethol-cymru.pdf>

Dylid gweithredu dan arweiniad lleol i ymgysylltu â chymunedau a'u grymuso i ddeall manteision brechu a chefnogi ac ysgogi eraill yn eu cymunedau i gael eu brechu, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae lefelau brechu'n isel. Disgwylir i fyrddau ieuchyd ddatblygu Strategaeth Brechu Teg a rhaglen waith gyda mewnbwn ieuchyd cyhoeddus pwrpasol.

Mae opsiynau brechu hygyrch sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn hanfodol er mwyn cael y nifer mwyaf posibl i fanteisio ar y rhaglen ac felly mae disgwyl i fyrddau ieuchyd ystyried hyn wrth gynllunio a chyflawni'r rhaglen. Mae dod â brechlynnau mor agos at unigolion â phosibl yn gwella'r nifer sy'n cael eu brechu - cael meddygon teulu i roi brechlynnau drwy ofal sylfaenol yw un o'r ffyrdd mwyaf hygyrch o gael brechiad oherwydd bod meddygfeydd yn tueddu i fod yn agos at ble mae pobl yn byw.

8.4 Sut y bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth i'r gwaith fynd rhagddo, ac wedi iddo gael ei gwblhau?

Mae gwyliadwriaeth o gyfraddau brechu a chydaddoldeb brechu yn ystod plentyndod fel mater o drefn yng Nghymru yn cael ei gynnal gan Raglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy Ieuchyd Cyhoeddus Cymru a hynny drwy gynllun cenedlaethol COVER yng Nghymru. Cyhoeddir adroddiadau COVER bob chwarter, yn crynhoi'r cyfraddau brechu ar gyfer plant.

Mae adroddiad COVER blynyddol yn cael ei gynhyrchu, yn crynhoi'r cwmpas brechiadau i blant sy'n cyrraedd penblwyddi allweddol yn ystod y cyfnod o 12 mis rhwng mis Ebrill a mis Mawrth. Mae tueddiadau mewn anghydaddoldebau o ran cwmpas, yn ôl lefel amddifadedd economaidd-gymdeithasol hefyd yn cael eu cyhoeddi yn flynyddol.